

Y gorchymyn newydd

“Yr wyfyn rhoi i chwi orchymyn newydd: carwch eich gilydd. Fel y cerais i chwi, jelly yr ydych chwithau i garu’ch gilydd.” (adn. 34)

Beth am ddarllen Ioan 13:31–38 ac yna myfyrio

Doedd y gorchymyn i garu ddim yn newydd am nad oedd wedi cael ei gyhoeddi o’r blaen ond oherwydd nad oedd wedi cael ei weld o’r blaen. Roedd yn newydd oherwydd ei fod yn cael ei fesur â chariad heb ei gynsail – cariad Crist at ei ddisgyblion. Ni fu dim yn y disgyblion yn gyfrifol am ei ennyn ac ni allai dim ynddynt ei ddiffodd.

Mae rhai ysgolheigion yn awgrymu bod yr ymgomiau ffarfwelio yn Efengyl Ioan yn y Testament Newydd yn gyfwerth â llyfr Deuteronomium yn yr Hen Destament lle mae Moses yn ffarfwelio â’r genhedlaeth oedd ar fin mynd i mewn i Wlad yr Addewid. Yn sicr, mae’r un themâu yn codi, sef adnabod Duw a charu Duw a chadw’i orchymynion. Os y rhain yw’r cefndir i’r ymgomiau gwych hyn, yna rydyn ni’n dysgu rhywbeth arwyddocaol iawn am Iesu. Roedd nid yn unig yn ei roi ei hun yn lle Moses fel cyfryngwr bendithion a chyfrifoldebau cyfamod Duw, ond roedd hefyd yn ei roi ei hun yn lle Duw drwy gyhoeddi mwy o orchymynion a gorchymynion newydd i bobl Dduw. Gellid galw’r gorchymyn mae’n ei gyhoeddi yma fel ‘yr unfed gorchymyn ar ddeg’. O’i gymharu â thywyllwch bradychiad Jwdas, mae cariad Iesu yn disgleirio hyd yn oed fwyfwy. Yn drychinebus, camddarllenodd Jwdas galon Iesu. Dydy Duw ddim yn cael clod yn yr hunangariad sy’n ceisio cadw ei fywyd ei hun, ond yn hytrach yn y cariad sy’n aberthu ei fywyd er mwyn rhoi clod i Dduw. Nid cariad at nerth, ond nerth cariad fydd yn hynodi pobl newydd Duw.

Does dim dwywaith na fyddai pobl y byd ddim yn amau o gwbl ein bod yn wir ddisgyblion i Grist pe bydden ni’n cofleidio’r etifeddiaeth hon o gariad ac yn ufuddhau i orchymyn Crist i garu ein gilydd.

Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

Deut. 30:11–16; Ioan 17:20–26; 1 Thes. 4:9–12; 1 Ioan 2:1–2, 7–11; 3:11–16

Meddyliwch am y cwestiynau hyn:

1. Beth ydy dyhead calon Iesu?
2. Beth mae Ioan yn ein dysgu am gariad?

Gweddi

O Dduw, dw i’n dyheu i’m cariad fod fel dy gariad di – cariad sy’n caru am na all beidio. Bydd ar waith ynof i ryddhau’r cariad rwy’ti wedi’i osod yno, fel y bydd fy nghariad mor eithafol a diwahân â’th gariad di – yn fy ffordd fechan i. Amen.